**WHC/2019/012**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 9 Ebrill 2019**

**<u>STATWS</u>: CYDYMFFURFIO**

**<u>CATEGORI</u>: SAFONAU**

**Teitl:** Gweithredu'r Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru, sef strategaeth ar gyfer rheoli gwaedlifau ôl-enedigol, mewn gwasanaethau mamolaeth.

**Dyddiad Adolygu:** Ebrill 2024

**I'w weithredu gan:**
Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd
Penaethiaid Bydwreigiaeth y Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Clinigol (Mamolaeth)

**Angen gweithredu erbyn:**
**Dylai'r strategaeth hon fod yn rhan annatod o ymarfer rheolaidd i reoli gwaedlifau ôl-enedigol.**

**Anfonwyd gan:** Yr Athro Jean White - Y Prif Swyddog Nyrsio

**Enw(au) Cyswllt Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**
*Karen Jewell - Swyddog Nyrsio (Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ*
*Ffôn: 03000 255218 E-bost: Karen.jewell@gov.wales*

**Dogfen(nau) amgaeedig:** gwaith papur presenol y Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru V9.7, y protocol presenol ar gyfer defnyddio ROTEM V6.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Gyfeillion

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn ichi sicrhau bod dull gweithredu'r Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru ar gyfer rheoli gwaedlifau ôl-enedigol yn parhau yn rhan annatod o ymarfer rheolaidd, wedi i'r prosiect ddod i ben ar 31 Mawrth 2019. Rwy'n gofyn ichi sicrhau bod y safonau hyn yn parhau i gael eu bodloni ar draws yr holl wasanaethau mamolaeth.

**Y Cefndir**

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan gymuned y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru a'r ymchwil a wnaed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fis Tachwedd 2016 lansiwyd prosiect cydweithredol i wella ansawdd ar draws Cymru gyfan. Ei nod oedd lleihau'r niwed a allai ddigwydd o ganlyniad i waedlifau ôl-enedigol, drwy wella a safoni sut y maent yn cael eu rheoli. Roedd y prosiect hwn, a oedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn newid arferion drwy:

- Hyfforddiant ar weithredu bwndel, gan gynnwys mynd ati i fesur y gwaed a gollwyd ar ôl pob genedigaeth, a defnyddio prawf ceulo wrth ochr y gwely (visco-elastometric haemostatic assay (VHA))

- Bwndel y Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru

    1. Asesiad risg ar gyfer gwaedlif ôl-enedigol i bob mam sydd wrthi'n rhoi genedigaeth
    2. Mesur cronnol diduedd o'r gwaed a gollwyd ers rhoi genedigaeth er mwyn ei gwneud yn bosibl adnabod gwaedu anarferol o drwm yn gynnar ac mewn modd cyson
    3. Gwaith papur sydd wedi ei safoni a dulliau cyfathrebu o fewn cylch caeedig, er mwyn hwyluso'r broses o uwchgyfeirio at y tîm amlddisgyblaeth mewn modd amserol a chyson
    4. Cynnal profion VHA, haemoglobin a llaetha wrth ochr y gwely, gan gynhyrchu canlyniadau cyn pen 10 munud er mwyn i'r driniaeth allu llywio'r camau a gymerir i ddadebru mamau.

- Casglu data ac adborth ar lefel uned

Mae cyfnod gweithredu'r prosiect bellach wedi dod i ben, ac mae'r newidiadau wedi dod yn rhan annatod o ofal a hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys drwy PROMPT Cymru. Mae'r canlyniadau i famau wedi gwella, gyda lleihad yn nifer y trallwysiadau celloedd gwaed coch, a hefyd nifer yr achosion o waedlifau mawr ôl-enedigol, a derbyniadau i ofal critigol.

**Ymgysylltu**


Cafodd y prosiect hwn ei ddatblygu ar y cyd â Rhwydwaith Mamolaeth Cymru, Gwella 1000 o Fywydau, Deoniaeth Cymru, a phob un o'r saith bwrdd iechyd. Bu ymgysylltu helaeth â Phenaethiaid Bydwreigiaeth, y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd Menywod, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, timau Profion Pwynt Gofal, Hematoleg, Anesthesia, Bydwreigiaeth i Israddedigion, a'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â rheoli gwaedlifau ôl-enedigol.

**Monitro a gwerthuso'r safonau**

Disgwylir i'r byrddau iechyd barhau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth yn llawn, gan gynnwys defnyddio'r dechnoleg cynnal profion wrth ochr y gwely, gwaith papur sydd wedi ei safoni, a chasglu data ac adborth ar lefel uned, er mwyn gweld pa mor gynaliadwy yw newidiadau.

Hoffwn ddiolch i bob un o'r timau mamolaeth am eu cydweithrediad ac am eu brwdfrydedd wrth gyfrannu at y prosiect hwn, a oedd â'r nod o wella canlyniadau i famau yng Nghymru.

Yn gywir



**Yr Athro Jean White CBE**
**Prif Swyddog Nyrsio**
**Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru**